**DETHOL A PHENODI AELODAETH GWRANDAWIADAU CAMYMDDYGIAD YR HEDDLU A THRIBIWNLYSOEDD APELIADAU'R HEDDLU**

**1 <u>Gwrandawiadau Camymddygiad</u>**

**1.1 <u>Penodi Cadeiryddion Cymwys yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol Gwrandawiadau Camymddygiad yr Heddlu – Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020</u>**

**1.2** Os, at ddibenion Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (Rheoliadau 2020), y cyfeirir achos at wrandawiad camymddygiad, rhaid i'r gwrandawiad hwnnw gael ei gynnal gan banel o dri unigolyn sy'n cynnwys –

- cadeirydd a benodir gan y corff plismona lleol a ddewiswyd yn deg a thryloyw o'r rhestr o unigolion cymwys yn y gyfraith a gedwir gan y corff plismona lleol at ddiben Rheoliadau 2020;
- aelod o heddlu o reng Uwcharolygydd neu'n uwch (ar yr amod bod yr aelod o reng uwch na'r swyddog dan sylw) a benodir gan yr awdurdod priodol; ac
- unigolyn a benodir gan y corff plismona lleol a ddewiswyd yn deg a thryloyw o'r rhestr o ymgeiswyr a gedwir gan y corff plismona lleol at ddiben Rheoliadau 2020, (h.y. aelodau panel annibynnol)

**1.3** Mae pedwar corff plismona (h.y. Comisiynwyr Heddlu a Throsedd) pedair ardal heddlu Cymru, sef Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru, wedi penodi unigolion cymwys yn y gyfraith i restr o gadeiryddion cymwys yn y gyfraith. Penodwyd hefyd restr o aelodau panel annibynnol at ddibenion gwrandawiadau camymddygiad a gynhelir o fewn Cymru.

**1.4** Mae cadeiryddion cymwys yn y gyfraith ac aelodau panel annibynnol gwrandawiadau camymddygiad penodol angen bod yn deg a thryloyw.

**1.5** Mae Canllawiau Statudol ar Safonau Proffesiynol, Cyflawniad ac Uniondeb mewn plismona a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mharagraff 11.35 fel a ganlyn:

*"11.35 The misconduct hearing will be chaired by an independent legally qualified person who will be chosen from a pool held by the local policing body. They will be appointed at the point where the appropriate authority determines (under Regulation 23) to refer the case to misconduct hearing, at which stage they will ask for a legally qualified person to be appointed by the local policing body (under Regulation 28).*

*11.36 Appointment should be on a fair and transparent basis by the local policing body following a request from the appropriate authority. Fair and transparent will generally mean that a rota system is established (sometimes referred to as 'first cab off the rank system') so the next available person from the pool is chosen for the hearing. It will be good practice for the local policing body to publish how their rota system operates."*

**1.6** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut wnaiff pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru ddewis y cadeiryddion cymwys yn y gyfraith ac aelodau panel annibynnol (fel y cyfeiriwyd atynt uchod), ar gyfer y gwrandawiadau camymddygiad.

**1.7** Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (SCHTh Gogledd Cymru) yn cadw ac yn gweinyddu'r rhestrau o gadeiryddion cymwys yn y gyfraith ac aelodau annibynnol o'r panel o ddydd i ddydd. Gwnaiff SCHTh Gogledd Cymru greu'r rhestrau hyn mewn ffordd sy'n caniatáu'r nifer o wrandawiadau gael eu cofnodi a'u neilltuo i bob cadeirydd cymwys yn y gyfraith ac aelod panel annibynnol yn y drefn honno.

**1.8** Sefydlir y rhestr fel bod y cadeiryddion cymwys yn y gyfraith ac aelodau panel annibynnol gyda'r nifer gwrandawiadau lleiaf ar frig eu rhestrau priodol. Nid oes disgwyl i gadeiryddion cymwys yn y gyfraith ac aelodau panel annibynnol wrthod achosion am unrhyw reswm oni bai am argaeledd. Os nad ydynt ar gael ar gyfer gwrandawiad penodol, ni fyddant yn colli eu lle ar y rhestr. Fodd bynnag, os ydynt yn gwrthod cais am unrhyw reswm arall nag argaeledd yna, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, bydd eu henw'n symud i waelod y rhestr. Derbynnir nad yw aelodau panel annibynnol efallai yn dymuno sefyll mewn gwrandawiad camymddygiad tu allan i'w hardal leol oherwydd daearyddiaeth y rhanbarth.

**1.9 Penodi Cadeirydd Cymwys yn y Gyfraith**

**1.9.1** Ar y pwynt pan fydd yr awdurdod priodol (yn gweithredu drwy eu Hadran Safonau Proffesiynol [PSD] perthnasol) yn penderfynu cyfeirio achos at wrandawiad camymddwyn, byddant yn mynd at eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu perthnasol (h.y. y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal heddlu lle mae'r camymddwyn yn tarddu) er mwyn penodi cadeirydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith.

**1.9.2** Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, gan weithredu drwy staff o fewn swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn mynd at SCHTh Gogledd Cymru i ganfod yr unigolyn nesaf sydd ar gael o'r rhestr o gadeiryddion cymwys yn y gyfraith. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yna'n sefydlu gyda'r cadeirydd cymwys yn y gyfraith nesaf ar gael ynghylch a ydynt yn gallu ymgymryd ag atgyfeiriad at y gwrandawiad camymddygiad. Bydd y cadeirydd cymwys yn y gyfraith yn cael cyfnod rhesymol i wirio eu hargaeledd. Bydd disgwyl iddynt hysbysu a allent gymryd yr achos o fewn 48 awr. Os ydynt yn cadarnhau eu bod ar gael, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd symud ymlaen i benodi'r unigolyn fel cadeirydd cymwys yn y gyfraith at ddibenion y gwrandawiad camymddygiad. Byddant wedyn yn hysbysu SCHTh Gogledd Cymru o'r penodiad cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl. Mae hyn er mwyn i'r rhestr o wrandawiadau a gymerir gan gadeiryddion cymwys yn y gyfraith gael ei diweddaru'n llawn. Mae hyn hefyd fel ei bod yn bosibl sefydlu pwy ydy'r unigolyn "nesaf" ar gael i gymryd gwrandawiadau. Yn ei hanfod mae hyn yn system rhes cabiau o wneud apwyntiadau o'r rhestr.

**1.9.3** Os gwrthodir, rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd perthnasol fynd yn ôl at SCHTh Gogledd Cymru er mwyn eu hysbysu am y gwrthodiad a'r rheswm, a cheisio enw'r unigolyn nesaf sydd ar gael. Ailadroddir y proses wedyn yn ôl yr angen. Cofnodir ffaith y gwrthodiad a'r rheswm gan SCHTh Gogledd Cymru ar y rhestr berthnasol.

**1.9.4** Os ydy unigolyn yn dewis gwasanaethu neu beidio, ni fyddent yn cael cynnig cyfle arall i gymryd gwrandawiad hyd nes yr eir drwy'r rhestr lawn o unigolion cymwys (oni bai mai'r rheswm am wrthod yw oherwydd diffyg argaeledd neu amgylchiadau eithriadol eraill).

**1.9.5** Mae gweithredu system y rhes cabiau yn gofyn i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ddiweddaru SCHTh Gogledd Cymru'n amserol pan dderbynnir a gwrthodir achosion. Dylid hysbysu'r awdurdod priodol am benodiad ar yr un pryd ag yr hysbysir SCHTh Gogledd Cymru.

**1.9.6** Nid oes disgwyl y gadewir system y rhes cabiau o wneud penodiadau o'r rhestr oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Os, am unrhyw reswm, y gadewir, rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd perthnasol a SCHTh Gogledd Cymru amlinellu'r rheswm clir.

**1.9.7** Hysbysir y swyddog sy'n destun y gwrandawiad camymddygiad cyn gynted a bo'n ymarferol gan yr awdurdod priodol am yr un sydd i gadeirio eu gwrandawiad camymddygiad. Hysbysir hwy hefyd at bwy y gallent wrthwynebu'n ysgrifenedig atynt cyn diwedd 3 diwrnod gwaith gan ddechrau gyda'r diwrnod gwaith cyntaf wedi i'r swyddog gael eu hysbysu o enw'r unigolyn, gan amlinellu eu rhesymau am wrthwynebu. Os mai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ydy'r corff perthnasol i bleidio neu wrthod y gwrthodiad, dylent hysbysu SCHTh Gogledd Cymru am ganlyniad gwrthwynebiad o'r fath er mwyn diweddaru'r rhestr penodiadau.

**1.9.8** Unwaith mae'r cadeirydd cymwys yn y gyfraith wedi'i benodi, mae angen i'r awdurdod priodol enwebu unigolyn i gyfathrebu gyda'r cadeirydd o ran materion gweinyddol ayyb sy'n annibynnol o'r broses ymchwilio.

### 1.10 Penodi Aelod Panel Annibynnol

**1.10.1** Mae'r panel camymddygiad sy'n ymgymryd â gwrandawiad camymddygiad hefyd yn cynnwys y ddau aelod arall a ddisgrifir ym mharagraff 1.2 uchod. Dewisir a phenodir yr aelod panel annibynnol yn hwyrach yn y broses unwaith y penderfynir ar ddyddiad y gwrandawiad. Wrth wneud y penodiad hwn, rhoddir blaenoriaeth i aelodau panel annibynnol o'r ardal heddlu perthnasol. Os nad yw'r aelodau panel annibynnol hynny o ardal yr heddlu perthnasol ar gael neu os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penderfynu na ddylid penodi aelod panel annibynnol o ardal yr heddlu am unrhyw reswm arall, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynd at SCHTh Gogledd Cymru i ganfod yr unigolyn nesaf sydd ar gael o'r rhestr o aelodau panel annibynnol. Derbynnir nad yw aelodau panel annibynnol efallai yn dymuno sefyll mewn gwrandawiad camymddygiad tu allan i'w hardal leol oherwydd daearyddiaeth y rhanbarth. Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd roi eglurhad clir os yw aelod panel annibynnol o du allan i ardal yr heddlu yn cael eu dewis a'u penodi.

### 1.11 Penodi aelod o'r panel sy'n swyddog heddlu

**1.11.1** Penodir yr aelod o'r panel camymddygiad sy'n swyddog heddlu gan y Prif Gwnstabl priodol fel awdurdod priodol.

**1.12** Lle’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd perthnasol yw sicrhau bod eu penderfyniadau dethol a phenodi ffurfiol yn cael eu gwneud at ddibenion Rheoliad 28 (4) Rheoliadau 2020 yn unol â'u trefniadau gwneud penderfyniad mewnol eu hunain.

**1.13** Os ydy'r swyddog sy'n destun yr achos camymddygiad yn uwch swyddog, bydd y panel yn cynnwys:

- cadeirydd a benodir gan y corff plismona lleol a ddewiswyd yn deg a thryloyw o'r rhestr o unigolion cymwys yn y gyfraith a gedwir gan y corff plismona lleol at ddiben Rheoliadau 2020;
- Prif Arolygydd Heddluoedd EM neu arolygydd heddlu a enwebir gan Brif Arolygydd Heddluoedd EM; ac
- unigolyn a benodir gan y corff plismona lleol a ddewiswyd yn deg a thryloyw o'r rhestr o ymgeiswyr a gedwir gan y corff plismona lleol at ddiben Rheoliadau 2020, (h.y. aelodau panel annibynnol)

**2 Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu**

**2.1 Penodi Cadeiryddion Cymwys yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol i Dribiwnlys Apeliadau'r Heddlu – Atodlen 6 Deddf yr Heddlu 1996**

**2.2** Gall swyddog apelio gwrandawiad camymddygiad a gynhelir o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 a Rheoliadau (Cyflawniad) yr Heddlu 2020. Ar ben hyn, mae gan uwch swyddogion yr hawl i apelio at Dribiwnlys Apeliadau'r Heddlu yn erbyn unrhyw ganfyddiad a/neu ganlyniad disgyblaethol a osodir mewn cyfarfod camymddygiad yn ychwanegol at yr hawl i apelio yn dilyn gwrandawiad camymddygiad.

**2.3** Ymdrinnir ag apeliadau sy'n berthnasol i benderfyniadau sydd wedi'u gwneud o dan fersiynau blaenorol o'r Rheoliadau hyn o dan Reolau Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu 2012.

**2.4** Mae Rheolau Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu 2020 a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar Safonau Proffesiynol, Cyflawniad ac Uniondeb mewn Plismona ym Mhennod 26 yn amlinellu'n glir yr amgylchiadau lle gwneir apêl a sut y dylid symud ymlaen gyda'r apeliadau. Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd swyddogaethau gweithdrefnol a gweinyddol i'w cyflawni er mwyn gallu trefnu apeliadau yn effeithiol ac yn effeithlon. Pan geir apêl, rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sicrhau eu bod yn glynu'n agos at y ddeddfwriaeth a chanllawiau.

**2.5** Amlinellir cyfansoddiad Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu yn Atodlen 6 Deddf yr Heddlu 1996 (fel y diwygiwyd).

**2.6** Os nad yw'r apeliwr yn uwch swyddog, bydd y Tribiwnlys yn cynnwys:

- cadeirydd cymwys yn y gyfraith wedi'u cymryd o restr a gedwir gan y Swyddfa Gartref;
- uwch swyddog heddlu sy'n gwasanaethu; ac
- unigolyn lleyg, a ddiffinnir ym mharagraff 10 (aa) Atodlen 6 Deddf yr Heddlu 1996. Mae'n unigolyn sydd ddim, ac nad ydynt erioed wedi bod, yn aelod o'r heddlu, neu'n swyddog gwirfoddol, staff sifil yr heddlu, corff plismona lleol neu gorff plismona arall fel yn ôl y Ddeddf.

**2.7** Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Safonau Proffesiynol, Cyflawniad ac Uniondeb mewn Plismona yn dweud ym mharagraff 26.15 a 26.16:

> *"The members of the tribunal should be chosen on a fair and transparent basis by the local policing body [i.e. PCC]. There is a clear need for flexibility within this process but good practice would be for the local policing body to select chairs and laypersons on a random basis to ensure that all members are given the same opportunity for hearing cases. It is also good practice for the local policing body to publish, or be open to publishing, how their system operates.*
>
> *The method of selection is an important principle of fairness for the officer concerned and ensuring proceedings are conducted in accordance with principles of natural justice in order that the selection itself and any subsequent proceedings cannot be called into question on the basis of any perceived, or actual, unfairness."*

**2.8** Os yw'r apeliwr yn uwch swyddog, bydd y Tribiwnlys yn cynnwys:

- cadeirydd cymwys yn y gyfraith wedi'u cymryd o restr a gedwir gan y Swyddfa Gartref;
- Prif Arolygydd EM o Heddluoedd a Gwasanaethau Tan ac Achub neu'n Arolygydd a enwebir gan y Prif Arolygydd; ac
- yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Swyddfa Gartref neu Gyfarwyddwr o'r Swyddfa Gartref a enwebir gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

**2.9** Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud ym mharagraff 26.18 a 26.19:

> *"In the interests of fairness, an individual should not sit on a tribunal for any officer if they have already heard the same case at a misconduct meeting or misconduct-hearing.*
>
> *It is the responsibility of the local policing body to satisfy itself that the members who are sitting on the tribunal are sufficiently independent of the matter so as not to give rise to any suggestion of unfairness."*

**2.10** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymdriniaeth pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru wrth ddethol, lle mae ganddynt ddisgresiwn, aelodau tribiwnlysoedd apeliadau'r heddlu.

**2.11** Wrth ddethol y fath aelodau, bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn ystyried yn llawn eu rhwymedigaethau statudol a'r canllawiau.

**2.12** Wrth ddethol cadeiryddion cymwys yn y gyfraith fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 2.6 a 2.8 uchod a chan ystyried eu rhwymedigaethau a'r canllawiau'n llawn, bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn dewis ar hap a chyda golwg ar sicrhau bod y rhai hynny ar restr y Swyddfa Gartref yn cael cyfle cyfartal i glywed achosion.

**2.13** Mae holl bartïon sy'n destun Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu yn cael gwybod pwy sydd wedi'u dewis i Gadeirio Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu. Gallent wrthwynebu yn ysgrifenedig cyn diwedd 3 diwrnod gwaith gan ddechrau gyda'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r swyddog gael eu hysbysu am enw'r unigolyn, gan amlinellu eu rhesymau dros wrthwynebu. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yna'n pleidio neu'n gwrthod y gwrthwynebiad ar sail y rhesymau a roddir.

**2.14** Wrth ddewis lleygwyr (h.y. aelodau panel annibynnol) fel y cyfeirir ym mharagraff 2.6 uchod, mae pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru wedi penderfynu bod yr aelodau panel annibynnol hynny a benodwyd ganddynt at ddiben gwrandawiadau camymddygiad yn ffurfio cronfa o leygwyr lle dewisir unigolion i wasanaethu fel sy'n briodol ar Dribiwnlys, a lle rhoddir ystyriaeth lawn i'r canllawiau a gyfeirir ato uchod.

**2.15** Bydd y broses ar gyfer dethol lleygwr yn dilyn yr un broses o ran dethol aelodau panel annibynnol ar gyfer gwrandawiadau camymddygiad, fel sy'n briodol. Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd perthnasol flaenoriaethu aelodau panel annibynnol o'r ardal heddlu berthnasol wrth benodi. Derbynnir nad yw aelodau panel annibynnol efallai yn dymuno sefyll mewn gwrandawiad Tribiwnlys tu allan i'w hardal leol oherwydd daearyddiaeth y rhanbarth. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n penodi yn cadarnhau unrhyw benodiad o aelod panel annibynnol fel lleygwr wrth SCHTh Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod y rhestr yn cael ei diweddaru'n llawn.

**2.16** Ni phenodir aelod panel annibynnol fel lleygwr os ydynt eisoes wedi clywed yr un achos mewn gwrandawiad camymddygiad.

**2.17** Lle'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd perthnasol yw sicrhau bod eu penderfyniadau dethol a phenodi ffurfiol yn cael eu gwneud at ddibenion Atodlen 6 Deddf yr Heddlu 1996 a Rheolau Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu 2020, yn unol â'u trefniadau gwneud penderfyniad mewnol eu hunain.

## 3. Cyhoeddi

**3.1** Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru i gyd wedi cytuno cyhoeddi'r ddogfen hon ar eu gwefannau fel y gellir gweld bod eu hymdriniaeth at benodi gwrandawiadau camymddygiad a thribiwnlysoedd apeliadau'r heddlu yn deg a thryloyw.